PWYLLGOR PENODI - PRIF GYFREITHYDD CYFREITHIWR

DYDD LLUN, 11 MAWRTH 2019

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Weaver(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Carter, Derbyshire, Mackie a/ac Williams |

16 : YMDDIHEURIADAU (OS O GWBL)

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

17 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni wnaethpwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant yn unol â Chod Ymddygiad Aelodau.

18 : CYLCH GORCHWYL

Dyma’r cylch gorchwyl:

*"Cyflawni swyddogaethau'r awdurdod mewn perthynas â phenodi a diswyddo Prif Swyddogion a Dirprwy Prif Swyddogion (fel y'u diffinnir yn Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog) (Cymru) 2006) a Phennaeth Statudol Gwasanaethau Democrataidd, yn unol â'r Rheolau Trefniadaeth Cyflogaeth a pholisïau a gweithdrefnau perthnasol eraill y Cyngor".*

19 : COFNODION

Cafodd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Mawrth 2019 eu cymeradwyo fel cofnod cywir.

20 : GWAHARDD Y CYHOEDD

PENDERFYNWYD: Bod y cyhoedd yn cael eu gwahardd yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol o fusnes ar y sail, pe bai aelodau o'r cyhoedd yn bresennol yn ystod y drafodaeth, oherwydd natur y busnes a oedd i'w drafod, y byddai datgeliad iddynt o’r wybodaeth a eithriwyd fel y'i diffinnir yn Rhan 4 o Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 ac fel y disgrifir isod:-

Paragraff 12 – Gwybodaeth sy'n ymwneud â cheisydd i ddod yn gyflogai i'r Awdurdod; a

Paragraff 13 – Gwybodaeth a oedd yn debygol o ddatgelu pwy yw unigolyn.

21 : PENODI - PRIF GYFREITHIWR YMGYFREITHA

Cafodd y Pwyllgor ei ymgynnull i gyfweld â’r ymgeisydd a gyflwynwyd gan y Pwyllgor ar 4 Mawrth 2019 ar ôl ystyried canlyniadau'r ganolfan asesu.

Fel rhan o'r broses gyfweld, gwnaeth yr ymgeisydd gyflwyniad 10 munud a rhoddwyd cyfle i'r Aelodau holi'r ymgeisydd ar ei gyflwyniad. Dilynwyd hyn gan gwestiynau set ffurfiol a dau gwestiwn gorfodol.

Ar ddiwedd y broses gyfweld, ystyriodd y Pwyllgor berfformiad yr ymgeisydd yn erbyn y cymwyseddau a'r ymatebion enghreifftiol.

Cytunodd y Pwyllgor eu bod yn gallu penodi i swydd y Prif Gyfreithiwr Ymgyfreitha.

PENDERFYNWYD -

1. Y dylid penodi James Williams yn Brif Gyfreithiwr Ymgyfreitha yn unol â'r radd a hysbysebwyd ar gyfer y rôl;

2. fod y broses ddewis wedi'i chynnal yn unol â'r broses benodi a bod pob ymgeisydd wedi cael ei drin yn gyfartal ac yn deg yn ystod y broses. Bod yr ymgeisydd llwyddiannus wedi ei benodi ar sail teilyngdod.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.00 am